

General
Pharmaceutical
Council

Cynllun Blynyddol

2021/22

Ebrill 2021



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n fanwl-gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar y deunydd hwn a rhaid cyfeirio at deitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn teip mwy neu mewn iaith wahanol).

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Nod strategol un: Darparu fframwaith safonau addasadwy sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym	3
Nod strategol dau: Darparu rheoleiddio effeithiol, teg a chyson	3
Nod strategol tri: Symbylu gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio'r ffordd y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant.....	4
Nod strategol pedwar: Symud y pwyslais tuag at ddulliau mwy rhagweliadol, cymesur ac wedi'u teilwra o reoleiddio fferylliaeth	5
Nod strategol pump: Gwella ein gallu a'n seilwaith i gyflawni ein gweledigaeth	6

Rhagarweiniad

Mae'r cynllun blynyddol 2021/22 hwn yn amlinellu ein prif flaenoriaethau ar gyfer blwyddyn dau ein Cynllun Strategol 2020-25, gan amlinellu ymhle y bwriadwn fod wrth weithio i gyflawni ein gweledigaeth deng mlynedd sef gwneud gofal fferyllol diogel ac effeithiol yn ganolog i gymunedau iachach.

Dros y flwyddyn nesaf bydd ein gwaith yn parhau i gael ei drefnu o dan y pum nod strategol, sef:

- Darparu fframwaith safonau addasadwy sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym
- Darparu rheoleiddio effeithiol, teg a chyson
- Symbylu gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio'r ffordd y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant
- Symud y pwyslais tuag at ddulliau mwy rhagweliadol, cymesur ac wedi'u teilwra o reoleiddio fferylliaeth
- Gwella ein gallu a'n seilwaith i helpu cyflawni ein gweledigaeth

Mae'r cynllun blynyddol hwn yn amlinellu'r gweithgareddau a gyflawnir yn y meysydd hyn eleni yn ogystal ag esbonio sut fyddwn yn mesur ein llwyddiant. Fe'i cefnogir gan adroddiadau rheolaidd manylach i'n Cyngor.

Yn y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddiol, gan gynnwys pennu'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd i fynd ar ac aros ar y gofrestr, cadw cofrestr o'r sawl sy'n bodloni'r safonau hynny ac ymchwilio pryderon am y bobl neu'r fferyllfeydd a gofrestrwn.

Bydd angen inni gadw golwg fanwl ar ein gweledigaeth a'n cynlluniau strategol a blynyddol dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt, ac ail-flaenoriaethu ein gwaith yn unol â hynny, i sicrhau y gallwn addasu'n gyflym i:

heriau parhaus o ran COVID-19 ac unrhyw effeithiau Brexit;

unrhyw newidiadau i fodolau darparu gwasanaethau fferyllol oherwydd technoleg neu newidiadau yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach; a

newidiadau oherwydd diwygiadau rheoleiddiol llywodraethau,

a pharhau i gefnogi a helpu cyflwyno arloesiadau cyfrifol sy'n anelu at ddarparu gwell deilliannau yn ddiogel i gleifion

Nod strategol un: Darparu fframwaith safonau addasadwy sy'n diwallu anghenion cyhoeddus a phroffesiynol sy'n newid yn gyflym

Dros y pedair blynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- ddatblygu safonau rheoleiddiol newydd ar gyfer rolau diwedddedig mewn deddfwriaeth meddyginiaethau
- gofalu fod ein safonau craidd a'r canllawiau ategol yn cyflawni anghenion newidiol y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol

I'n helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, yn 2021/22 byddwn wedi:

- adolygu pa mor effeithiol mae ein safonau craidd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr proffesiynol a systemau a'n canllawiau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau a gwella ansawdd arfer fferyllol
- dechrau datblygu rhaglen holistaidd wrth edrych i'r dyfodol o flaenoriaethau ar gyfer adolygiadau cylchol o'n holl safonau rheoleiddiol craidd a'n canllawiau ategol ar draws y sefydliad
- cynhyrchu cynllun pendant yn esbonio sut a phryd y byddwn yn datblygu safonau newydd ar gyfer rolau diwedddedig mewn deddfwriaeth meddyginiaethau (ar yr amod fod yr amserlen deddfwriaethol yn caniatáu)

- cyhoeddi ein canllawiau diwedddedig ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrdd
- datblygu canllawiau cydraddoldeb newydd ar gyfer perchnogion fferyllfeydd, i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol

Nod strategol dau: Darparu rheoleiddio effeithiol, teg a chyson

Dros y pedair blynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- gyflawni holl safonau rheoleiddio da
- adrodd yn fras ar ein perfformiad o ran rheoleiddio a gwasanaethau
- rheoleiddio'n deg

I'n helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, yn 2021/22 byddwn wedi:

- cwblhau rhaglen o welliannau i brydlondeb delio ag achosion, ansawdd y rhesymau am benderfyniadau a roddir, a gwasanaeth sy'n rhoi'r person yn gyntaf wrth ystyried ffitrwydd i arfer
- dechrau gweld gwelliannau cyson yn ansawdd ein data gwreiddiol
- sicrhau adroddiadau mwy cydlynol ar ein perfformiad o ran rheoleiddio a gwasanaethau a chynnydd yn ôl cynlluniau, cyllidebau a thargedau

- sicrhau y gallwn werthuso effaith y strategaethau tymor canol newydd ar gyfer ffitrwydd i arfer (FfA), cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC), a chyfathrebu dros yr hirdymor
- cael dealltwriaeth o brofiad cofrestredigion darpariaethol yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn cyfrannu at ein gwaith
- sicrhau bod strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) newydd ar waith
- darparu cam cyntaf y gwaith o wreiddio llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd rydym yn gweithio

Nod strategol tri: Symbylu gwelliannau mewn gofal fferyllol trwy foderneiddio'r ffordd y rheoleiddiwn addysg a hyfforddiant

Dros y pedair blynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- loywi safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- datblygu ein dulliau rheoli addysg a hyfforddiant ôl-gofrestru gweithwyr fferyllol proffesiynol
- cyflwyno trefn wedi'i theilwra yn seiliedig ar wybodaeth ar gyfer achredu a sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol

- diweddarau'r dull o gyflawni, cynnwys ac amseriad yr asesiad cofrestru ar gyfer fferyllwyr
- galluogi cofrestriad effeithlon ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol tramor yng nghyd-destun Brexit

I'n helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, yn 2021/22 byddwn wedi:

- dechrau gweithredu'r safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol newydd ar gyfer fferyllwyr
- adolygu safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr
- gweithio gydag eraill i ddatblygu ein rôl yn addysg a hyfforddiant ôl-gofrestru gweithwyr fferyllol proffesiynol
- asesu a chytuno sut ddefnyddir datblygiad pellach ar ail-ddilysu er mwyn arddangos addysg a hyfforddiant ôl-gofrestru
- dechrau gweithredu trefn wedi'i theilwra yn seiliedig ar wybodaeth ar gyfer achredu a sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant cychwynnol
- cynnal asesiad cofrestru ar-lein pedair gwlad gyda Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) a gwerthuso ei effeithiolrwydd
- adolygu meini prawf cofrestru diwygiedig ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol tramor yng nghyd-destun Brexit

Nod strategol pedwar: Symud y pwyslais tuag at ddulliau mwy rhagweliadol, cymesur ac wedi'u teilwra o reoleiddio fferylliaeth

Dros y pedair blynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- weithredu trefn reoleiddio sy'n dibynnu fwyfwy ar wybodaeth arbenigol
- rheoli llif y wybodaeth a dderbyniwn a'r pryderon y cawn wybod amdanynt yn strategol
- defnyddio trefn fwy adferol ac sy'n rhoi'r person yn gyntaf ar gyfer ffitrwydd i arfer
- datblygu dull mwy strategol o reoleiddio fferylliaeth
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r safonau y dylent eu disgwyl gan fferylliaeth

I'n helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, yn 2021/22 byddwn wedi:

- bod yn cynhyrchu adroddiadau tueddiadau rheolaidd er mwyn cyfrannu at ein gwaith
- dechrau gweithredu rhaglen o flaenoriaethau ar gyfer sicrhau gwybodaeth a Chytundebau Rhannu Gwybodaeth (CRhG) newydd gyda budd-ddeiliaid pan mae gennym fylchau yn ein gwybodaeth
- cyfrannu at ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ar bedair agwedd diwygiadau rheoleiddiol (llywodraethiant, addysg, ffitrwydd i arfer a chofrestru) a pharhau paratodau ar gyfer unrhyw newidiadau i'r dyfodol
- cyhoeddi setiau data craidd ar ein gwefan am ein cofrestr, ynghyd â data EDI priodol ynghylch achosion FfA er mwyn cyfrannu at waith eraill
- dechrau gweithredu ein strategaeth ffitrwydd i arfer newydd a gymeradwywyd
- gweithio gyda budd-ddeiliaid i edrych ar y defnydd o dechnoleg wrth reoleiddio fferyllfeydd ar-lein
- cwblhau peilot o ddull strategol o asesu pa mor dda y mae fferyllfeydd cofrestredig yn cyrraedd ein safonau
- dechrau gweithredu ein strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu newydd a gymeradwywyd

Nod strategol pump: Gwella ein gallu a'n seilwaith i gyflawni ein gweledigaeth

Dros y pedair blynedd sy'n weddill o'n cynllun strategol, byddwn yn canolbwyntio ar:

- gwella profiad cwsmeriaid o'n gwasanaethau
- sicrhau ein bod wedi cael ein trefnu i lwyddo
- gwella ein seilwaith TG i'n cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth
- sefydlu sefyllfa ariannol gynaliadwy a theg

I'n helpu i gyflawni'r nod cyffredinol hwn, yn 2021/22 byddwn wedi:

- symud y datganiad papur cyn-cofrestru terfynol, y cais am dystysgrif o sefyllfa broffesiynol bresennol a statws rhagnodydd annibynnol ar-lein
- dechrau adeiladu'r wefan newydd
- rhoi cynllun cyffredinol ar waith i lywio'r holl waith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r ffordd newydd rydym am i'n sefydliad weithio i'r dyfodol
- datblygu strategaeth gwasanaethau digidol ynghyd â strategaeth systemau busnes diweddaedig i gefnogi'r ffordd newydd rydym am i'n sefydliad weithio i'r dyfodol
- rhoi system archebu pryniannau newydd a phorth dyfarniadau newydd ar waith
- gwneud newidiadau i weithrediad y ganolfan gyswllt i gwsmeriaid i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion cofrestredigion a'r cyhoedd

- integreiddio ein dynesiad at feddwl diwastraff a newid y busnes yn y ffordd rydym yn rhedeg prosiectau a rhaglenni gwaith unigol
- parhau i foderneiddio ein seilwaith TG gan gynnwys uwchraddio ein system fusnes graidd CRM



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Sgwâr Canada, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org